

## Canllaw i Dechnegau Chwilio

Defnyddiwch y cynghorion yn y canllaw hwn i gael y canlyniadau'r ydych eu heisiau wrth chwilio ar FINDit ac oddi mewn i gronfeydd data unigol. Bydd y cynghorion hyn hefyd yn ddefnyddiol wrth ddefnyddio chwilotwr.

### Strategaeth Chwilio

#### Cynllunio

- Lluniwch eich strategaeth chwilio cyn ichi gychwyn. Po fwyaf o ymdrech a rowch i'ch strategaeth chwilio, y mwyaf perthnasol fydd eich canlyniadau. Bydd hyn yn arbed amser ichi yn y tymor hir.

#### Ei dorri'n ddarnau llai




- Peidiwch â rhoi'r ymadroddion disgrifiadol hir na theitlau traethawd cyfan. Byddwch yn glir ynglŷn â'ch pwnc a dewiswch y cysyniadau pwysig i'w defnyddio fel *geiriau allweddol* wrth chwilio.

#### Ymglyfarwyddo â'ch pwnc

- Defnyddiwch wyddoniaduron a geiriaduron i'ch helpu i gael eglurder ar eich pwnc a rhoi syniadau ichi am eiriau allweddol.
- Ystyriwch yr holl eiriau neu ymadroddion posib a allai gael eu defnyddio i ddisgrifio eich pwnc a lluniwch restr o eiriau allweddol. Gallai hyn gynnwys cyfystyron a thermau cysylltiedig. Termau neu sillafiadau Americanaidd, geiriau lluosog, acronymau a thalfyriadau.

### Technegau Chwilio

Gall Gweithrediadau Boole **AND**, **OR** a **NOT** gael eu defnyddio yn y rhan fwyaf o gronfeydd data i ddod o hyd i wybodaeth berthnasol drwy gysylltu cysyniadau / geiriau allweddol â'i gilydd.

	Enghraifft	Bydd y chwiliad yn dod o hyd i...	Canlyniadau diagram Venn i'w gweld mewn glas
<b>AND</b>	Cardiff <b>AND</b> Bay	Eitemau sy'n cynnwys Cardiff Bay. Mae hyn yn <b>tynhau'r</b> chwiliad.	
<b>OR</b>	Cardiff <b>OR</b> Bay	Eitemau sy'n cynnwys y naill neu'r llall o'r rhain. Mae hyn yn <b>ehangu'r</b> chwiliad.	
<b>NOT</b>	Cardiff <b>NOT</b> Bay	Eitemau sy'n cynnwys y gair Cardiff ond nid y gair Bay. Byddwch yn ofalus, oherwydd fe allai hyn anwybyddu erthyglau defnyddiol.	

<b>Chwiliadau Booleaidd Cymhleth</b>	Gallwch ddefnyddio un neu ragor o weithrediadau gyda'i gilydd e.e. (city <b>OR</b> urban <b>OR</b> town) <b>AND</b> regeneration. Bydd hyn yn dod o hyd i ddogfennau sy'n cynnwys regeneration ac unrhyw rai o'r geiriau city, urban neu town.
<b>Ymholiadau ymadrodd " "</b>	Mae hyn yn caniatáu ichi chwilio am ymadrodd union drwy amgáu ymadrodd y chwiliad mewn dyfynodau. Mae hyn yn dod o hyd i ddogfennau sy'n cynnwys yr ymadrodd union, e.e. "architectural conservation".
<b>Cwtogiad \$</b>	Mae hyn yn caniatáu ichi chwilio am eiriau sy'n rhannu bôn cyffredin drwy ddefnyddio symbol penodol. e.e. byddai comput\$ yn chwilio am unrhyw air sy'n cynnwys y bôn <b>comput</b> (e.e. computer, computing, computation).
<b>Nodchwiliwr *</b>	Gallwch osod nodchwiliwr yn lle llythyren oddi mewn i air e.e. byddai wom*n yn dod o hyd i woman a women.  Byddwch yn ymwybodol bod cronfeydd data yn dueddol o ddefnyddio symbolau gwahanol ar gyfer cwtogiad a nodchwiliwr, felly trowch at adran gymorth y gronfa ddata cyn dechrau arni.
<b>Chwiliadau Agos</b>	Dyma ffordd i chwilio am ddau neu ragor o eiriau sy'n codi o fewn nifer benodol o eiriau i'w gilydd e.e. salmon near/15 virus  Mae llawer o amrywiaeth rhwng cronfeydd data o ran y symbolau i'w defnyddio, felly trowch at adran gymorth y gronfa ddata cyn dechrau defnyddio chwiliadau agos.
<b>Chwiliadau Maes</b>	Mae modd chwilio mewn maes penodol yn y ddogfen, e.e. teitl, awdur neu ddyddiad cyhoeddi. Bydd llawer o gronfeydd data yn gadael ichi ddewis meysydd i chwilio ynddynt o gwmpen.

### Canlyniadau Chwiliad

- Os ydych wedi dod o hyd i ormod o ganlyniadau, meddyliwch eto sut i wneud eich chwiliad yn fwy penodol. Rhowch gynnig ar ddefnyddio geiriau allweddol gwahanol, ychwanegu rhagor o eiriau allweddol, neu gyfyngu eich chwiliad i feysydd neu flynyddoedd cyhoeddi penodol.
- Os nad yw eich chwiliad yn dod o hyd i lawer, rhowch gynnig ar edrych ym mynegai neu thesawrws y gronfa ddata dan sylw. Bydd hyn yn eich helpu i ddod o hyd i eiriau allweddol a sillafiadau sy'n cael eu defnyddio yn y gronfa ddata a gallai roi awgrymiadau am dermau ehangach i chwilio amdanynt.
- Defnyddiwch eich canlyniadau i adolygu eich strategaeth chwilio.
- Ystyriwch ddefnyddio amrywiaeth ehangach o dechnegau chwilio er mwyn ehangu neu dynhau eich canlyniadau.

### Llwyddiant

- Pan fydd gennych eich canlyniadau, fe allan nhw gael eu hanfon i'ch cyfeiriad e-bost, neu'u hargraffu neu'u lawrlwytho.
- Os nad yw testun llawn erthygl ar gael ar FINDit gallwch wneud cais am Fenthyciad Rhwng Llyfrgelloedd. I gael mwy o wybodaeth, ewch i <http://studentlibrary.southwales.ac.uk/interlibrary/>
- Mae cymorth ar-lein ar gael gyda'r rhan fwyaf o gronfeydd data.

## **Cymorth a Chefnogaeth**

Os oes arnoch angen rhagor o gymorth gyda'ch technegau chwilio, cysylltwch â'ch Llyfrgellydd Gwybodaeth <http://studentlibrary.southwales.ac.uk/information/librarians/>

## **Adborth**

Os oes gennych unrhyw sylw neu awgrym ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn, anfonwch e-bost at [libweb@southwales.ac.uk](mailto:libweb@southwales.ac.uk)